# PHILLIPS, JAMES (1703 - 1783), clerigwr a hynafiaethydd

**Enw:** James Phillips
**Dyddiad geni:** 1703
**Dyddiad marw:** 1783
**Priod:** Phillips (née Powell)
**Rhiant:** John Phillips
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** John James Jones

Yn ôl T. M. Rees (*Not. W.*), ganwyd ef ym Mlaenau-y-pant, ym mhlwyf Llandygwydd, Sir Gaerfyrddin, neu'n hytrach Sir Aberteifi. Ni ddywed O. Jones (*Cymru*) a'r *Brython*, 1861, 162, namyn na'i fod 'o Blaenpant,' yr hyn ni olyga o angenrheidrwydd ei fod wedi ei eni yno. Yn Foster, *Alumni Oxonienses*, ceir hanes am un James Phillips, a oedd yn fab i John Phillips o Lanbedr Efelffre a Colby, Sir Benfro. Ymaelododd y James Phillips hwn yng Ngholeg Iesu, Rhydychen yn 1724?, a graddio B.A. 1727, M.A. 1729/30, B.D. a D.D. 1743; a bu farw yn 1783. Dengys atebion i ymweliadau eglwysig fod y Dr. James Phillips wedi ei wneud yn ficer Nanhyfer yn 1730, lle y bu farw yn 1783, ar ôl bod hefyd yn rheithor Llangoedmor oddi ar 1738/9. Dros amser yn unig y bu ei gysylltiad â Blaenpant. Bu'n trigo yno am 10 neu 12 mlynedd yn ystod maboed tad y cyrnol Owen Brigstocke. Cafodd felly'r fantais o ddefnyddio'r llyfrgell ardderchog a gasglwyd yno gan Owen Brigstocke, brawd y William Brigstocke a ddaeth i Blaenpant ar ei briodas â'r gyd-etifeddes. Dichon mai'r llyfrgell hon a enynnodd ynddo ddiddordeb mewn hynafiaethau Cymraeg. Gohebai â Samuel Pegge, yr hynafiaethydd Saesneg, yr hwn a ymgynghorai ag ef ynghylch materion hynafiaeth Gymraeg. Arferai Phillips drafod y materion mewn llythyrau at Evan Evans ('Ieuan Brydydd Hir') ac Edward Richard, Ystradmeurig. Yn ei dro, dangosai Richard lythyrau Phillips i Lewis Morris. Ond ni feddyliai Morris yn uchel am Phillips, ac unwaith galwodd ef yn ' ddarn o antiquary.' Er bod y cwbl o lythyrau hynafiaethol Phillips y gwyddys amdanynt wedi eu hysgrifennu ym Mlaenpant, y Dr. Phillips o Langoedmor a ddylid ei alw, fei y gwna, er enghraifft, D. G. Osborne-Jones yn ei lyfr *Edward Richard of Ystradmeurig*, 44. Ymbriododd James Phillips â - Powell, Nanteos, ger Aberystwyth.

## Awdur

**John James Jones**, (1892 - 1957)

## Ffynonellau


*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

Foster, *Alumni Oxonienses*

S. R. Meyrick, *The History and Antiquities of the County of Cardigan* (London 1808)

*Cambrian Register* (1795–1818), i, 1795

J. H. Davies, *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765* (1907–9)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9)

*Y Brython*, 1861

*NLW MSS* 2039

H. Blackwell, NLW MS 9269A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748842

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu